# Gweithgaredd Gweddi Plant

Wythnos o Weddi Genedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru



# Gweithgareddau Gweddi plant

## SALM 23



1 Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i;
mae gen i bopeth dw i angen.
2 Mae'n mynd â fi i orwedd mewn porfa hyfryd;
ac yn fy arwain at ddŵr glân sy'n llifo'n dawel.
3 Mae'n rhoi bywyd newydd i mi,
ac yn dangos i mi'r ffordd iawn i fynd.
Ydy, mae e'n enwog am ei ofal.
4 Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynllyd,
fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.
Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i.

**Creu Dafad!**

Rydych angen – Tiwb cardfwrdd (rholyn papur toiled neu rolyn bapur cegin) :
Gwlân Cotwm
Cerdyn neu bapur
Glud
Pin ffelt du
Llygaid ‘googly’ (opsiynol)

Eich cam cyntaf yw defnyddio’r glud i ludo’r gwlân cotwm i’r tiwb.

Yna byddwch angen torri allan siâp pen dafad a choesau (opsiynol). Efallai y byddwch angen help oedolyn i wneud hyn.

Cyn gludo byddwch angen rhoi llygaid a cheg i’r ddafad. Yna byddwch angen ei ludo ar y tiwb.

# GWEITHGAREDDAU GWEDDI

Edrychwch ar y ddafad rydych wedi ei chreu. Meddyliwch amdanoch eich hun fel y ddafad honno, a meddyliwch am Iesu fel eich bugail. Os ydych yn teimlo'n bell neu'n agos at Iesu ar hyn o bryd, mae o wastad yno yn gofalu am ei ddefaid – amdanoch chi. Gwariwch ychydig o amser yn siarad yn eich pen gyda Iesu .

Efallai bod gennych chi amser i fynd allan am dro. Mi fedrwch fynd a'ch dafad gyda chi i'ch atgoffa bod Iesu gyda chi lle bynnag yr ydych.

Sut mae hynny'n gwneud i chi deimlo?

Faint o ddefaid rydych yn ei weld yn y caeau?

Pa anifeiliaid eraill rydych wedi eu gweld?

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________